## Sut Gall Cyngor Sir Fynwy Helpu

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ymwybodol o'r problemau y gall llifogydd eu hachosi ac yn ceisio sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle i dderbyn rhybudion llifogydd, i fonitro amodau lleol ac i ymateb i geisiadau am gymorth gan y gymuned.

**Cyn llifogydd, rydym yn:**

- Paratoi ar gyfer llifogydd posibl trwy gynllunio, hyfforddiant ac ymarferion;
- Sicrhau bod system ymateb 24 awr ar waith;
- Monitro lleoliadau sydd o bosib yn mynd i gael eu heffeithio;
- Ymgynghori â'r gymuned mewn ardaloedd allweddol sydd o bosib yn mynd i gael eu heffeithio;

**Yn ystod llifogydd, rydym yn:**

- Cydgysylltu â phob asiantaeth/sefydliad dan sylw;
- Ysgogi ein gweithlu i ymateb i anghenion y gymuned;
- Dosbarthu bagiau tywod ar gais a lle bo modd;
- Helpu o bosib gyda llety dros dro os nad oes gennych yswiriant, tra bod eich eiddo yn cael ei atgyweirio. Os oes gennych yswiriant, siaradwch â'ch cwmni yswiriant i ddarganfod pa opsiynau sydd gennych.

**Wedi'r llifogydd:**

**Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Chyngor Sir Fynwy ar 01633 644644** os hoffech help gyda'r canlynol:

- Iechyd yr Amgylchedd;
- Priffyrdd a Llifogydd;
- Ailgylchu a Gwastraff;
- Tai;
- Safonau Masnach;
- Y Dreth Gyngor / Trethi Busnes

## Rhifau Cyswllt Defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Argyfyngau** | **999** |
| **Holl Adrannau'r Cyngor:** | |
| **Cyngor Sir Fynwy** | 01633 644644 |
| **Heddlu Gwent** | 101 / 01633 838111 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 01443 232000 |
| **Argyfyngau Nwy** | 0800 111 999 |
| **Rhif Argyfwng Toriad Pŵer** | 105 |
| **Argyfyngau Dŵr a Charthffosiaeth** | 0800 052 0130 |
| **Cymdeithas Yswirwyr Prydain** | 020 7600 3333 |

## Am Fwy O Wybodaeth

**Cyfoeth Naturiol Cymru** ✆ 0300 065 3000
🖱 www.naturalresources.wales/flooding
**Fforwm Llifogydd Cenedlaethol** ✆ 01299 403055
🖱 www.nationalfloodforum.org.uk
**Cyngor Ar Bopeth**
🖱 www.citizensadvice.org.uk
✆ 0800 702 2020
**Iechyd Cyhoeddus Cymru**
🖱 phw.nhs.wales
✆ 02920 227744
**FloodRe**
🖱 www.floodre.co.uk
**The Blue Pages – Cyfeiriadur Llifogydd**
🖱 www.bluepages.org.uk/
**Trustmark**
🖱 www.trustmark.org.uk ✆ 0333 555 1234

monmouthshire
sir fynwy

# A YW EICH CARTREF YN DIODDEF LLIFOGYDD?



**MAE'R DAFLEN HON AR GYFER PRESWYLWYR SIR FYNWY SYDD Â CHARTREFI MEWN PERYGL O LIFOGYDD**

**A WYF MEWN PERYGL O LIFOGYDD?**

Gall llifogydd ddigwydd am lawer o resymau, gan gynnwys:

- Glaw trwm am gyfnod hir,
- Llanw uchel yn trechu'r rhwystrau,
- Ceuffosydd wedi'u blocio,
- Draeniau yn gorlenwi



## GWEITHREDWCH NAWR

1. Gwiriwch berygl llifogydd i'ch eiddo drwy fynd i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yma— www.naturalresources.wales/flooding

2. Cofrestrwch i gael rhybuddion llifogydd **AM DDIM** drwy ffonio Floodline ar 0345 988 1188

3. **Gwiriwch fanylion eich polisi yswiriant ac ychwanegwch yswiriant os oes angen. Ewch i FloodRe—** www.floodre.co.uk—for help / advice

## PARATOI AR GYFER LLIFOGYDD

- Dysgwch sut i ddiffodd eich cyflenwadau nwy, trydan a dŵr.
- Cadwch restr o rifau defnyddiol - gan gynnwys eich manylion yswiriant a rhif polisi.
- Paratowch becyn argyfwng - gweler drosodd.
- Meddyliwch pa eitemau o werth personol y gallwch chi eu symud nawr—e.e. albwm lluniau, dogfennau pwysig ac ati.
- Meddyliwch am yr hyn yr hoffech ei symud i le diogel yn ystod llifogydd.
- Ystyriwch offer amddiffyn rhag llifogydd dros dro, e.e. gatiau llifogydd, gorchuddion plastig i selio briciau aer, bagiau tywod, byrddau llifogydd.
- Ystyriwch fesurau gwrthsefyll llifogydd eiddo - am wybodaeth a chanllawiau defnyddiol ar gyfer paratoi a diogelu eich eiddo, ewch i: flood-risk-maps.naturalresources.wales/?locale=en
- Ewch i Dudalennau Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Sir Fynwy: www.monmouthshire.gov.uk/flood-risk-management/ am gymorth a chyngor defnyddiol.

## OS YW LLIFOGYDD YN Y RHAGOLYGON

- Gwrandewch am rybuddion tywydd garw am lifogydd sydyn ar y radio a'r teledu a ffoniwch Floodline ar 0345 988 1188 am lifogydd afonydd.
- Gwiriwch lefelau afonydd a data glawiad ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Symudwch anifeiliaid anwes, cerbydau, pethau gwerthfawr ac eitemau gwerthfawr eraill a dogfennau pwysig i le diogel.
- Paratowch eich cyflenwad o fagiau tywod. Gall Cyngor Sir Fynwy ddarparu bagiau tywod mewn argyfwng er efallai y byddwch yn dewis cadw eich cyflenwad eich hun.
- Rhowch wybod am unrhyw broblemau draenio difrifol i Ganolfan Gyswllt Cyngor Sir Fynwy, e.e. rhwystrau mewn ffosydd neu geuffosydd, neu ddŵr llonydd ddim yn draenio'n gywir.



### PARATOI PECYN BRYS

**✓Dogfennau yswiriant,**
**✓Rhifau ffôn pwysig,**
**✓Tortsh a batris sbâr,**
**✓Radio cludadwy,**
**✓Ffôn symudol,**
**✓Pecyn cymorth cyntaf gyda meddyginiaeth hanfodol,**
**✓Dŵr potel,**
**✓Eitemau bwyd nad ydynt yn ddarfodus,**
**✓Blancedi, dillad cynnes,**
**✓Pecyn golchi a nwyddau ymolchi hanfodol,**
**✓Hanfodion plant - llaeth, bwyd babanod, cewynnau ac ati,**
**✓Arian brys,**
**✓Camera i gofnodi difrod at ddibenion**

## YN YSTOD LLIFOGYDD

- Symudwch eich teulu a'ch anifeiliaid anwes i fyny'r grisiau.
- Gwiriwch fod aelodau sy'n absennol o'ch cartref yn ddiogel.
- Daliwch i wrando ar y radio/teledu lleol am ddiweddariadau.
- Arhoswch yn eich eiddo, os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, hyd nes y cewch wybod yn wahanol gan y gwasanaethau brys neu'r llifddwr wedi encilio.
- Peidiwch â cherdded na gyrru drwy ddŵr llifogydd sy'n llifo.
- Osgowch dod i gysylltiad â llifddwr a golchwch dwylo yn drylwyr os ydych chi'n ei gyffwrdd.



## OS OES RHAID I CHI ADAEL

- Bydd y Gwasanaethau Brys yn dweud wrthych os oes angen i chi adael eich cartref er eich diogelwch eich hun. Dilynwch eu cyfarwyddiadau yn ofalus.
- Efallai y byddwch am aros gyda theulu neu ffrindiau. Os na, bydd llety brys yn cael ei ddarparu ar eich cyfer mewn canolfan orffwys nes i chi gael dychwelyd adref.
- Bydd cludiant hefyd yn cael ei ddarparu os oes angen.
- Os penderfynwch fynd i aros gyda theulu neu ffrind, rhowch wybod i'r Heddlu fel y gellir rhoi cyfrif amdanoch. Os oes amser:

  * Diffoddwch gyflenwadau trydan, nwy a dŵr,
  *Tynnwch y plygiau o'r offer,
  *Clowch bob drws a ffenestr.

- Ewch ag unrhyw feddyginiaeth hanfodol gyda chi.
- Peidiwch â dychwelyd adref nes y dywedir wrthych ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny.

**MAE TAFLEN ARALL GAN GYNGOR SIR FYNWY AR GYFER PRESWYLWYR SYDD WEDI CAEL EU HEFFEITHIO GAN LIFOGYDD - CYSYLLTWCH Â'R TÎM RHEOLI LLIFOGYDD DRWY GANOLFAN GYSWLLT CSF AM GOPI.**